



Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
73/2015
Dyddiad Cyhoeddi:
30/12/2015

AROLWG LLAIS Y DYSGWR CYMRU

Peilot chweched dosbarth

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad i'r peilot

- 1.1 Mae arolwg Llais y Dysgwyr Cymru yn ffurfio rhan o elfen 'Ymatebolrwydd' Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru ac fe'i cyflwynwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn 2013 er mwyn deall ac ymateb i farn dysgwyr yn y sectorau Addysg Bellach (AB), dysgu seiliedig ar waith (DSW), dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i oedolion (CiO) ar draws Cymru. Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd:
- Yn hysbysu arolygiadau Estyn¹ o ddarparwyr dysgu ôl-16;
 - Yn helpu darparwyr i ddeall agweddau ar eu cyflenwi sydd angen eu gwella; ac
 - Yn caniatáu i ddarparwyr gymharu boddhad gyda'u darpariaeth yn erbyn meincnod cenedlaethol.
- 1.2 Er mwyn bodloni'r nodau hyn ar gyfer yr holl ddysgwyr ôl-16 ar draws Cymru, comisiynodd yr AdAS Ipsos MORI i archwilio logisteg sut gallai'r arolwg gael ei gyflwyno mewn ysgolion, i ddysgwyr chweched dosbarth. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar sut cafodd y peilot ei gynnal ac yn cloi gydag awgrymiadau ar gyfer gweithredu'r arolwg i'r dyfodol mewn ysgolion sydd â dysgwyr chweched dosbarth.

2. Methodoleg

- 2.1 Cafodd yr holiadur sydd fel arfer yn cael ei ddosbarthu i ddysgwyr yn y sector AB ei addasu i'w ddefnyddio mewn chweched dosbarth ac yna ei brofi'n wybyddol gyda dysgwyr chweched dosbarth. Gwirfoddolodd dwy ysgol i gymryd rhan yn y prawf ym mis Rhagfyr 2014, gydag un ohonynt yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Gwnaed rhai diwygiadau ar ôl y profion a chafodd y ddolen lefel cwrs ei hymestyn o dri phwnc i bump.

¹ Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n gyfrifol am arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

- 2.2 Yna cafodd deg ysgol yn y de eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg. Roedd yr arolwg ar gael i ddysgwyr chweched dosbarth yn yr ysgolion hyn i'w ateb ar-lein rhwng 2^{il} a 27^{ain} Mawrth 2015, yn Saesneg ac yn Gymraeg. Roedd fersiwn bapur ar gael i'r ysgolion eu lawrlwytho oddi ar dudalen we ddiogel, ond ni chafodd ei defnyddio.
- 2.3 Daeth arolygon wedi'u cwblhau i law oddi wrth 816 o ddysgwyr chweched dosbarth, a oedd yn cynrychioli cyfradd gyfranogi o 43 y cant o gyfanswm y boblogaeth chweched dosbarth yn yr wyth ysgol a fu'n cymryd rhan. Roedd yr ymatebion yn Gymraeg i gyfrif am un y cant o'r arolygon a gwblhawyd, fel ym mhrif arolwg Llais y Dysgwr Cymru². Yr amser cyfartalog oedd 11 munud a 10 eiliad a chafodd cyfran uwch o'r arolygon eu cwblhau ar ddyfais symudol nag ym mhrif arolwg Llais y Dysgwr Cymru.
- 2.4 Er bod yr adborth am yr holiadur yn gadarnhaol gan y dysgwyr a'r ysgolion, roedd y cyfraddau cyfranogi yn is nag yn y prif arolwg. Byddai angen rhoi sylw i hyn os caiff yr arolwg ei gyflwyno ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n gynrychioliadol. Roedd y cyfraddau cyfranogi uchaf i'w gweld yn yr ysgol lle'r oedd Cofrestrydd Academaidd, yn hytrach nag athro, wedi bod yn annog y dysgwyr i gymryd rhan. Fe wnaethant gael cyfradd gyfranogi uchel drwy drefnu sesiwn i bob grŵp tiwtor yn yr ystafell TG yn ystod 'cyfnodau astudio' (pan nad oes gwersi eraill wedi'u trefnu a phan mae'r myfyrwyr yn gwneud gwaith cartref neu waith cwrs) i gwblhau'r arolwg neu ddweud wrth y dysgwyr am ei gwblhau adref.
- 2.5 Drwyddo draw, aeth cyfnod y gwaith maes rhagddo'n dda iawn: ni chafwyd dim ymholiadau na chwynion gan yr ysgolion ac ni chawsant unrhyw anawsterau technegol wrth ddefnyddio'r arolwg ar-lein. Mae mwy o fanylion am y fethodoleg i'w gweld ym Mhennod 3, ac mae'r holiadur a ddefnyddiwyd yn y peilot i'w weld yn Atodiad A.

3. Paru'r dysgwyr â setiau data

- 3.1 Cyn cynnal gwaith maes ar gyfer y prif arolwg mae Llywodraeth Cymru yn darparu detholiad o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Gwneir hyn er mwyn gallu paru dysgwyr –wrth iddynt gymryd rhan yn yr arolwg – gyda'r cyrsiau y cofnodir eu bod yn eu hastudio. Fel y disgrifir yn fanylach ym Mhennod 4, mae gan Lywodraeth Cymru ofynion data gwahanol ar gyfer ysgolion ac felly nid oes set ddata gymaradwy ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth yng Nghymru. Gan na ellid felly gynnal proses baru fyw, crëwyd dolen lefel cwrs oddi wrth y cyrsiau y gwyddys eu bod ar gael i ddysgwyr chweched dosbarth yng Nghymru eu hastudio. Er mwyn canfod pa mor effeithiol oedd y ddolen, gofynnwyd i'r ysgolion a gymerodd ran am set ddata o fanylion eu dysgwyr er mwyn gallu cynnal y broses baru yn ôl-weithredol.
- 3.2 Fe wnaeth tair o'r wyth ysgol a gymerodd ran yn yr arolwg gyflwyno set

² Byddai disgwyl i ymatebion yn Gymraeg fod yn uwch pe cai'r arolwg ei gyflwyno ar draws y wlad gan fod mwy o ysgolion cyfrwng Gymraeg i'w cael yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru nag yn Ne Cymru.

ddata. Dangosodd y rhain fod y ddolen wedi cipio 96 y cant o'r cyrsiau a oedd yn cael eu hastudio gan y dysgwyr a ymatebodd i'r arolwg (ac a gafodd eu paru'n llwyddiannus yn ôl-weithredol). Dylai penderfyniad gael ei wneud cyn cyflwyno'r arolwg i'r dyfodol ynglŷn ag a yw'r ddolen yn ddigon cywir, ynteu a yw proses baru fyw (fel gyda'r prif arolwg) yn well.

- 3.3 Mae angen data ar broffil dysgwyr pob ysgol – hyd yn oed os bernir bod y ddolen lefel cwrs a wnaed yn gywir heb fod angen paru'r ymatebion i'r arolwg yn ôl-weithredol - er mwyn pwysoli'r data. Heb bwysoli, ni ellir ystyried bod y canfyddiadau yn gynrychioliadol nac yn gymharol. O'r herwydd, bydd angen i ysgolion sicrhau bod y meysydd yn cael eu llenwi yn gyson oherwydd, er bod lefel cyfanrwydd y meysydd yn y tri set ddata a ddaeth i law yn uchel, ni chawsent eu llenwi'n gyson. Hefyd, byddai angen i'r asiantaeth ymchwil eu derbyn gyda digon o amser i unrhyw lanhau gael ei gwblhau.

4. Adroddiadau a chanfyddiadau

- 4.1 Mae Pennod 5 yn cynnwys mwy am bob un o'r adroddiadau unigol a oedd ar gael i ysgolion eu lawrlwytho oddi ar borthol ar-lein. Dyma'r rhain, yn fyr:
- Adroddiad PowerPoint 27 o sleidiau sy'n cynnwys sgoriau cyfansawdd ar gyfer y prif 'themâu' yn yr arolwg (er enghraifft, 'Gwybodaeth a Chyngor') yn ôl Meysydd Pwnc Sector haen gyntaf ac ail, ymateb i bob cwestiwn (er enghraifft, y canran oedd yn dweud 'da iawn' drwodd i 'gwael iawn' ar gyfer C1) a meincnodau (sy'n cynnwys yr ymateb 'da iawn' cyfartalog ar draws yr wyth ysgol);
 - Adroddiad Excel, a oedd yn dadansoddi'r atebion i'r holl gwestiynau yn ôl demograffeg dysgwyr allweddol (rhyw, blwyddyn ysgol a math o gymhwyster) a Meysydd Pwnc Sector haen gyntaf ac ail;
 - Taflen Excel o'r atebion gair am air a roddwyd gan eu dysgwyr i'r ddau gwestiwn penagored yn yr arolwg (C10 a C11): mae'r rhain yn gofyn i ddysgwyr wneud sylw am y peth gorau am eu darparwr ac awgrymiadau ar gyfer gwella.
- 4.2 Roedd adborth gan yr ysgolion yn dangos mai'r adroddiad PowerPoint oedd fwyaf rhwydd a hawdd ei defnyddio: yn wir, roedd rhai eisoes wedi'i ddangos i gydweithwyr a rhanddeiliaid eraill.
- 4.3 Caiff golwg gyffredinol ar y canfyddiadau hefyd ei darparu ym Mhennod 5, yn cynnwys trafodaeth am sgoriau cyfansawdd, boddhad cyffredinol a chymhariaeth o ymatebion gair am air a roddwyd yn y peilot i'r rhai a dderbyniwyd gan fyfyrwyr AB yn arolwg 2013/14.
- 4.4 Mae'r sgoriau cyfansawdd yn crynhoi barn dysgwyr ar draws cyfres o gwestiynau yn ymwneud â'r un thema. Gall y canfyddiadau hyn gael eu defnyddio gan yr ysgolion i bennu meysydd cyffredinol i'w gwella. Yn y peilot, 'Addysgu a Hyfforddi', sy'n cael ei gyfrifo o ymatebion i'r gyfres o gwestiynau sy'n ffurfio C6 ac sy'n cael eu gofyn ar gyfer pob cwrs sy'n cael ei astudio (yn y ddolen lefel cwrs), oedd y thema gyda'r gyfran

uchaf o ymatebion 'da iawn' (62 y cant) ar draws yr wyth ysgol. Mae hwn yn uwch nag yn y sector Addysg Bellach yn 2014/15: er mai hon oedd y thema gyda'r gyfran uchaf o ymatebion cadarnhaol o hyd, dywedodd llai na hanner fod addysgu a hyfforddi yn 'dda iawn' (46 y cant).

- 4.5 O ran boddhad cyffredinol, dywedodd 57 y cant o'r dysgwyr chweched dosbarth fod eu profiad yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. O ran bodlonrwydd â chyrsgiau, dywedodd 77 y cant o'r dysgwyr chweched dosbarth yn y peilot eu bod yn ôl y disgwyl neu'n well.
- 4.6 Gwnaed dadansoddiad i gymharu'r ymatebion gair am air a roddwyd gan ddysgwyr chweched dosbarth a dysgwyr Addysg Bellach i'r ddau gwestiwn penagored yn yr arolwg. Mae'n bwysig nodi mai dim ond cymariaethau bras iawn rhwng y ddau grŵp hyn o ddysgwyr y gellir eu gwneud, o ystyried nad oedd yr ymateb i'r arolwg chweched dosbarth yn gynrychiadol a'i fod yn dibynnu ar lawer llai o ymatebion nag ar gyfer y prif arolwg.
- 4.7 Ar gyfer y ddau sector, roedd y 'peth gorau' am eu darparwr yn ymwneud ag agweddau ar ddysgu. O fewn 'dysgu', dywedai dysgwyr AB fod y cyrsiau'n ddifyr, eu bod yn meithrin neu'n dysgu sgiliau newydd, yn hoffi'r aseiniadau neu'r cydrannau gwaith ymarferol, a chael dosbarthiadau bach. Er bod dysgwyr chweched dosbarth hefyd wedi crybwyll bod y cyrsiau'n ddifyr, maent yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar gael cyfnodau astudio i weithio neu adolygu a'r rhyddid i astudio wrth eu pwysau.
- 4.8 O ran meysydd i'w gwella, awgrymai'r ymatebion gair am air gan ddysgwyr AB a chweched dosbarth mai 'addysgu a dysgu' oedd y flaenoriaeth uchaf. Yn benodol, roedd disgyblion chweched dosbarth eisiau mwy o gymorth a chefnogaeth gan athrawon a gofynasant am newidiadau i Fagloriaeth Cymru.

5. Adborth gan ysgolion a chyflwyno'r arolwg

- 5.1 Gofynnwyd i'r ysgolion a gymerodd ran roi adborth ar y peilot, er mwyn llywio awgrymiadau ar gyfer newid cyn i'r arolwg gael ei gyflwyno ar draws pob chweched dosbarth yng Nghymru. Fe wnaeth pump o'r ysgolion ddarparu ymatebion yn ysgrifenedig a chaiff y rhain eu crynhoi ym Mhennod 6. Yn gryno, adroddodd ysgolion:
 - fod eu dysgwyr chweched dosbarth yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg;
 - bod Canllawiau'r Arolwg yn ddefnyddiol i'w hatgoffa sut roedd angen cynnal yr arolwg; ac
 - mai'r adroddiad PowerPoint oedd y mwyaf deniadol i'r llygad a'i fod eisoes wedi cael ei ddefnyddio i adrodd yn ôl wrth fyfyrwyr, staff a llywodraethwyr.
- 5.2 Mae pennod olaf yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r heriau allweddol i'r peilot ac awgrymiadau ar gyfer newid pe byddai arolwg Llais y Dysgwr Cymru yn cael ei gyflwyno i'r holl ddysgwyr chweched dosbarth yng Nghymru. Mae'n cael ei rhannu rhwng argymhellion ar gyfer prosesau'r

arolwg, y fethodoleg a chyflwyno adroddiadau. Yn bennaf, bydd yn bwysig:

- gwella ymgysylltiad ysgol gyda'r arolwg, efallai drwy ofyn i gyfryngwr sy'n gyfarwydd ag ysgolion mewn rhanbarth penodol gyfathrebu yn ad hoc gyda nhw;
- cael ymateb cynrychioliadol a chael setiau data dysgwyr sydd eu hangen ar gyfer paru a phwysoli; a
- thrafod ymhellach ba lefel o fanylder sy'n ddefnyddiol i'r ysgolion o ran darparu canfyddiadau yn ôl Meysydd Pwnc Sector a chysiau haen gyntaf ac ail.

Awduron yr Adroddiad: Ipsos MORI



Adroddiad Ymchwil Llawn: Ipsos MORI. (2015). *Learner Voice Wales Survey: Sixth-forms pilot*. Cardiff: Welsh Government.

Ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/learner-voice-wales-survey-sixth-forms/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru, o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siân Hughes
Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR
Ffôn: 0300 062 2239
Ebost: Post16Quality@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-5573-3
© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, oni ddywed yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>